

# Dibynnu arno

Byw ar Sicrwydd Gair Duw



## GWEDDIAU

Defnyddiwch y gweddïau mewn ffyrdd sy'n gweddu orau i'ch cynulleidfa. Gallwch, ddefnyddio'r gweddïau i gyd neu dewiswch rai o'r gweddïau ar gyfer gwasanaeth i oedolion, neu ar gyfer gwasanaethau i bob oed. Cymysgwch hwy gyda rhannau o'ch litwrgi arferol neu fel rhan o weddi agored.

## GALWAD I ADDOLI

Arglwydd Dduw, Ti, sy'n gwneud pethau rhyfeddol  
Trwy dy air creaiast bopeth sydd  
Trwy dy air byw di, Iesu, rwyd ti'n ein hachub ni  
Trwy dy Ysbryd, ffynnon dy air ysgrifenedig trwy broffwydi ac apostolion,  
Rwyd ti'n ein harwain a'n hadfywio  
Wrth i ni ymgynnull heddiw  
**I addoli a gweddïo, rhannu tystiolaeth a dysgu**  
Cynorthwya ni i dderbyn dy Air  
**A dirnad dy weledigaeth**  
Cynorthwya ni i gredu dy Air  
**A dal ein gafael ynddo pan fo'n ffydd yn cael ei brofi**  
Cynorthwya ni i ryddhau dy Air  
**I fyd sydd yn dyheu am anadlu anadl sanctaidd ei fywyd.**  
**Amen.**

## DWY WEDDI AR FFURF CERDD GAN YMFUDWYR HEDDIW

Teimlwch yn rhydd i ddefnyddio'r rhain ar y cyd gyda'r *Sgwrs* neu'r DVD *Gulf Stream*. Mae'r ddwy gerdd - gan ffoaduriaid sydd bellach yn byw yn Ewrop - yn ein helpu i ddeall profiad yr Israeliaid ym Mabilon pan siaradodd Eiseia a hwy. Yn ogystal mae'n ein helpu i ddeall bywyd gweithwyr mudol yn y Dwyrain Canol, a'r miloedd eraill y mae Cymdeithas y Beibl yn gweithio i roi cymorth iddynt. Defnyddiwch un neu ddau lais benywaidd ar gyfer pob yr un o'r darlleniadau hyn.

Fe ddewisais i adael, Arglwydd.  
Gadewais o'm hôl berllannau'r pentref,  
Trallod newyn,  
Chwerthin plant, twrw rhyfel.  
Canu'r gwragedd wrth weithio,  
A gwarth fy methiannau ...  
Bùm yn byw mewn hedd gyda'm teulu,  
Bellaf rwy'n unig,  
Gyda'r gofidiau oll a ddaw o fod yn wraig a fudodd o'i chynefin.

Pan ddaw'r bore gweddïaf arnat ti:  
Bydd yn nerth ac yn arweinydd i mi yn y dyddiau anodd hyn!  
Pan ddaw'r hwyr  
A'm hofnau am yfory'n cynyddu,  
Cymer ymaith fy ofnau ac adnewyddda fy newrder.  
Bydd o'm plaid, fy Nuw,  
Ti yw'r Tad, ac ni anghofi dy blant fyth.  
Gadawais y bywyd oedd gennyf i fod yn berson newydd.  
Dydw i ddim yn gwybod beth sydd o'm blaen,  
Ond fe gredaf y gallaf gael dechrau newydd  
Yn dy gariad,  
Rhywle ymhell, bell o'r boen  
A'm gwithiodd i adael.  
*Ruth, Y Congo*

Arglwydd, mae'n wir dy fod yn agos at bawb.  
Rwy'n bendithio dy enw a'th addoli, ac yn y wlad bell hon  
Gwn y paratoist le ar fy nghyfer.  
Rwy'n diolch i ti am fy nghynnal drwy'r amser ac ym mhob sefyllfa.

Wrth i mi edrych yn ôl a gweld sut buost yn gymorth i mi i groesi dyffrynnoedd, mynyddoedd ac afonydd, gallaf ddweud o waelod fy nghalon, mai ti yw'r Emaniwel, 'Duw gyda ni'. A 'm gweddi yw y bydd i'm plant, a phlant eu plant, a phawb fydd yn darllen y geiriau hyn wybod nad oes Duw arall fel ti, sy'n gofalu dros bawb sy'n dod atat ti mewn angen.  
Fe osodaist bobl garedig ar hyd fy nhaith; fe'm hamddiffynnaist rhag perygl, fe newidiaist amgylchiadau o'm plaid. Cefais fy mhorthi gennyf er na blennais ddim, ac fe'm dilledaist er na weriais arian. Roeddet ti yno bob amser mewn cyfnodau o boeni, ofn ac anobaith, ac fe sibrydaist y geiriau hyn i mi - 'Ni'th adawaf na chefnu arnat,' (Joshua 1.5)

Rwy'n medru dibynnu arnat ti yn llwyr. Fe ddaethost yn ddyn er dy fod ti yn Dduw, fel y gallet fod yn agos at dy bobl. Profaist fywyd alltud pan oeddet dal ym mreichiau dy fam; fe wyddost beth ydyw i ddyheu am fwyd; fe ddiodefaist anghyfiawnder, brad a marwolaeth ar y Groes. Diolch am yr aberth anhygoel a wnaethost fel y gallem ddod yn agos atat ti.

Rwy'n bendithio dy enw, fy Nuw, oherwydd nad wyf fi bellach yn ddieithryn. Rwyf wedi cael lle i setlo yng nghanol dy bobl di. Dysg fi, Arglwydd, i helpu'r tlawd; i rannu, i garu, i faddau. Bendithia'r rheiny oll sydd wedi agor ei breichiau'n, eu tai a'u pocedi i helpu'r rheiny mewn angen.  
*Yvonne, Rwanda*

## **GWEDDÏAU O EIRIOLAETH**

Gweddiwn dros bawb sy'n ymwneud a chyfieithu, dosbarthu a chynhyrchu'r Beibl yn fyd-eang, yn y wasg brintiedig, ar-lein, mewn Braille ac ar lafar.

### **Nertha hwynt trwy dy Ysbryd a'th Air.**

Gweddiwn dros bawb sy'n helpu pobl i ddeall ac amgyffred gwirionedd dy Air, ac yna'u helpu i fyw yn ôl ei werthoedd.

### **Nertha hwynt trwy dy Ysbryd a'th Air.**

Gweddiwn dros Gymdeithas y Beibl, a ni ein hunain, wrth i ni weithio i wneud y Beibl yn gredadwy i eraill drwy'r ffordd yr ydym yn byw ac yn yr holl ffyrdd yr ydym yn trosglwyddo ei

newyddion da. Cynorthwya ni wrth i ni ymateb i'r cwestiynau mae pobl yn ei ofyn, ac wrth ymateb i'r problemau maent yn eu hwynebu, ac wrth i ni gyhoeddi'r gwirionedd ein bod, pob un ohonom, oll wedi ein caru gennynt a'th fod yn ein galw i'th ddilyn ym mhob rhan o'n bywydau.

### **Nertha ni trwy dy Ysbryd a'th Air.**

Arglwydd, nertha dy bobl ym mhob man trwy dy Air fel y gallwn ddod a bywyd a gobaith i'r bobl o'n cwmpas.

**Er gogoniant i'r Tad, y Mab a'r Ysbryd Glan. Amen.**

### **GWEDDI O YMATEB**

Arglwydd, Wrth i'r cymylau ddringo, lledu a llenwi'r wybren,  
Ac wrth i'r glaw ddisgyn, gan gyffroi hadau i fywyd ffrwythlon, llawn

Bywha ni gyda dy gawodydd grasol;

Gad i ddafnau dy weledigaeth, dy her a'th addewid

Ddisgyn arnom.

Boed i ni eu hamsugno

Boed i ni gael ein cyffroi gan dy feddyliau sydd oruwch-daeear

Byw gan ddilyn dy ffyrdd di, sydd oruwch ein ffyrdd ni,

Rhedeg yn dy nerth, sydd oruwch nerth dynol

Boed i'n ffydd gael eu clymu mewn ufudd-dod i'th eiriau

Gan wybod na syrth yr un ohonynt

Hyd y cyflawna bopeth yr wyt wedi ei fwriadu ar ei gyfer.

Amen.

### **GORFFEN Y GWASANAETH: GWEDDI DRADDODIADOL**

Arglwydd bendigedig, a barodd i'r Ysgrythur Sanctaidd i gyd i gael ei ysgrifennu er ein hyfforddiant: caniatâ i ni eu clywed, eu deall, eu hystyried, a myfyrio arnynt oddi mewn, fel y gallwn gofleidio a gafael yn dynn yn y gobaith Gwynfydedig o fywyd tragwyddol, a roddaist i ni yn ein Gwardwr Iesu Grist; yr hwn sy'n byw a theyrnasu gyda thi, a'r Ysbryd Glân, yn un Duw, yn dragywydd. Amen. (*Llyfr Gweddi Cyffredin*, 1979)

**Daw'r ddwy weddi ar ffurf cerdd o *On the Road: A Journey through the Bible for Migrants*, Hawlfraint 2008, Cymdeithas y Beibl Ffrengig. Daw'r 'Weddi Glasurol' o'r *Book of Common Prayer*, 1979, defnyddiwyd drwy ganiatâd Cyngor Archesgobion Eglwys Loegr. Mae'r gweddïau eraill gan Lindsay Shaw, Swyddog Adnoddau Creadigol Cymdeithas y Beibl.**